





<u>Enter</u>: Jawaharlal Nehru a`i weledigaeth Sosialaidd. Aeth ati i foderneiddio`r wlad gyda thri Chynllun Pum Mlynedd. Ail-ddosbarthodd dir y cyfoethogion ymhlith y werin. Llwyddodd i wneud India`n wlad hunan-gynhaliol o ran bwyd. Gwnaed y system caste yn anghyfreithlon. Cyflwynodd ddemocratiaeth i`r wlad. Dechreuodd ryfel yn erbyn llygredigaeth. Aeth ati i geisio addysgu`r bobl: erbyn 1957 roedd 60 % o blant yr India`n cael addysg gynradd. Cyflwynodd ddiwydiannau trwm i`r wlad, a chynlluniau dyfrhau tir.... a gwnaeth hyn i gyd yn wyneb problemau enfawr a gwrthwynebiad o`r tu fewn a`r tu allan i`r wlad.


Bu farw Nehru yn 1964, ac wedi cyfnod byr fel arweinydd bu farw ei olynydd, Shastri. Wedyn daeth merch Nehru, Indira
Gandhi yn Brif Weinidog: aeth hon ati i ganoli grym, cyflwyno sensoriaeth yn y wasg, a charcharu miloedd o bobl. Roedd yn
dibynnu`n drwm iawn am gyngor ar ei mab ieuengaf, Sanjay, ac ar Rajiv, mab arall, wedi i Sanjay farw mewn damwain awyren
yn 1979. Cafodd Indira Gandhi ei saethu yn y Deml Aur yn Armitsar yn 1984, a chafodd ei mab Rajiv ei ladd gan *suicide*
*bomber* yn 1991. Yn y cyfnod ar ôl marwolaeth Nehru, camodd India yn ôl yn lle ymlaen.




Mae problemau llygredigaeth, anllythrennedd a thlodi yn dal yn gyffredin yn yr India. Mae poblogaeth yr India erbyn hyn bron
yn 1,000 miliwn o bobl, a chyn bo hir bydd yn fwy na China, a bydd yr India yn dod yn wlad fwyaf poblog y byd. Ond
problemau yr India ydyn nhw nawr. Mae`r ffaith i Nehru lwyddo i wella safon byw pobl yn y wlad trwy gyflwyno cynlluniau
Sosialaidd ynddo`i hun yn fuddugoliaeth wedi dros 200 mlynedd o gam-reolaeth Prydain. Gall papurau newydd `rhyddfrydol`
Llundain drafod diffygion yr India hyd syrffed, tra`n cefnogi pseudo-sosialaeth Islington Tony Blair. Dyw y Saeson ddim yn
credu o hyd yng ngallu cenedl yr India i reoli eu hunain. Y gwir amdani yw hyn - mae India`n dal yno - 50 (heb fod allan).



## Y `Rodnies`




Fei gyda phob llwyddiant diwydiannol, mae wastad pobl yn dioddef. Merthyr, yn ystod y Chwyldro Diwydiannol oedd un o brif ganolfannau cynhyrchu haearn Ewrop a`r byd. Yng nghanol y gweithgarwch a`r prysurdeb, roedd llond llaw o *feistri haearn pwerus yn gwneud elw aruthrol ar draul eu* gweithwyr. Arweiniodd hyn at dlodi aruthrol ymhlith pobl gyffredin Merthyr, gyda slymiau yn datblygu, a phobl yn byw mewn hofelau. Un o`r ardaloedd gwaethaf oedd ardal China - dyma ganolfan tor-cyfraith a drwgweithredu Merthyr Tydfil. Yn y diffeithwch diwydiannol hwn gwelwyd plant yn cael eu defnyddio i dorri`r gyfraith - Y RODNIES.






Yn ôl Ynad Heddwch Merthyr, HA Bruce, roedd o leiaf cant o Rodnies yn byw ar y strydoedd ac yn gwneud eu bywoliaeth trwy ddwyn. Yn aml, roedd y plant yn gweithredu mewn gangiau, ac yn cael eu harwain gan bobl mewn oed a rhieni. Roedd y mwyafrif o`r Rodnies yn gweithredu o ardal China ym Merthyr, ble roedden nhw`n tyfu i fyny mewn diwylliant tlodi a thor-cyfraith. Ateb yr awdurdodau i`r troseddu oedd i gosbi`r plant yn llym, er bod ymchwiliad seneddol i droseddu ymhith plant yn dweud hyn:




*`Mae`n hawdd iawn i feio`r plant eu hunain, ond mae`n rhaid gofyn os fyddai unrhyw berson, o gael ei fagu dan yr un amgylchiadau â nhw, yn ymddwyn yn wahanol. Mae amryw yn cael eu magu i ddwyn, tra bod eraill yn blant amddifad. Maen nhw`n byw trwy fegian a dwyn, a phan yn y carchar does neb yn ymweld â nhw.`*

Mae`r gair Rodnies yn dal i gael ei ddefnyddio mewn rhannau o Gymru i ddisgrifio cymeriadau brith. Yn anffodus i rai o`u plith, cael eu crogi neu eu halltudio wnaeth Rodnies Merthyr yn y pen draw. Dyma gofio felly ran pwysig o`n hanes, ein Oliver Twists ni - Y RODNIES.

# BUKOWSKI

Mae Charles Bukowski erbyn hyn yn un o'r awduron uchaf ei barch i fyw yn ystod yr Ugeinfed Ganrif. Galwodd Jean Genet ef yn fardd gorau America, ac mae wedi dylanwadu ar nifer o awduron eraill, gan gynnwys Twm Miall, David R Edwards a Rheinallt H Rowlands. Efallai ei fod yn denu'r sylw oherwydd ei ddelwedd fel yfwr mawr a merchetwr o fri, neu efallai mai oherwydd ei fod mor ddoniol y daeth mor enwog. Dywedodd *'All great men walk alone'* a *'Pwy sydd angen menyw'n sgrechen ar dop y grisiau'*.

Ganwyd Bukowski yn Anderlach, yr Almaen ar Awst 16, 1920. Roedd ei dad Henry yn GI o LA, wnaeth gwrdd â'i fam mewn *canteen*. Wedi i'w dad gael ei ryddhau o'r fyddin yn 1922 dychwelodd y teulu i California, ac aeth Charles i ysgol Virginia Road Grammar. Roedd ei dad yn ei guro ef a'i fam. Dywedodd *'Yn 4 neu'n 5 rydych yn dechrau rhoi'r darnau at ei gilydd ac edrych o'ch cwmpas. Roedd gen i rieni uffernol, a'ch rhieni yw eich byd yr oedran yna'*.



Yn gynnar iawn yn ei fywyd daeth Charles yn un o bobl yr ymylon, yn enwedig pan ddechreuodd ddatblygu spots yn 14 oed. Roedd ganddo gymaint o gywilydd o'i wyneb fel y diflannodd o'r ysgol a gwrthod mynd, ond dychwelodd ddwy flynedd yn ddiweddarach wedi darganfod dau beth oedd yn gwneud ei fywyd gwerth ei fyw: bariau, a'r llyfrgell gyhoeddus.

Graddiodd o'r ysgol yn 1939. Prom Night. Aeth i'r *gym* lleol ac edrych drwy'r ffenestri ar y parau hapus, tan iddo gael ei erlid oddi yno gan y gwyliwr nos. Y noson honno penderfynodd ei fod yn mynd i wneud rhywbeth: aeth ati i safio arian, a gadael yr ardal mewn bws, yn yfed whisgi ac yn cario *suitcase* o gardbord. O LA aeth i San Fransisco, gan wneud arian yn gwerthu ei waed i'r Groes Goch. Wedyn cafodd swydd gwerthu nwyddau a chollodd ei wryfdod i fenyw dew wnaeth gwrdd mewn bar. Roedd yn 24 oed.




Dychwelodd i LA yn 1946 a chyfarfu â menyw benboeth: un o nifer fyddai'n dylanwadu ar ei fywyd. Enw hon oedd Jane Cooney Baker; hi sy'n cael ei phortreadu gan Faye Dunaway yn y ffilm *Barfly*. Dechreuodd y ddau yfed gyda'i gilydd, a chario mlaen i yfed tan 1955, pan fu farw Baker. Hi wnaeth gyflwyno Bukowski i rasio ceffylau - obsesiwn arall iddo. Dechreuodd ysgrifennu barddoniaeth yn 1955, a'i anfon i gylchgrawn *Harlequin*. Ysgrifennodd golygydd y cylchgrawn (Barbara Frye) yn ôl ato yn derbyn ei farddoniaeth, ac yn dweud wrtho ei fod yn athrylith. Wedi iddi ddatgan mewn llythyr ato na fyddai'r un dyn yn ei phriodi, ysgrifennodd Bukowski ati yn cynnig ei phriodi.

Cwrddodd y ddau yn LA: dysgodd Bukowski ddau beth pwysig amdani - yn gyntaf roedd yn fenyw nwydwyllt, ac yn ail roedd ganddi filiynau o ddoleri. Wedi tri mis yn briod roedd cnoc ar y drws, a chyflwynwyd papurau ysgaru i Bukowski. Aeth yn ôl i'r gwely, cafodd ryw gyda Barbara, a gadawodd. Wedyn aeth ati i ysgrifennu stori fer *'How I threw away a million dollars'*.



Gweithiodd i'r Swyddfa Bost o 1958 i 1970 yn eistedd mewn cadair awr ar ôl awr, ddydd ar ôl dydd, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd yn byw ei fywyd *iawn* gartref yn gweithio wrth ei deipiadur, yn yfed cwrw a gwrando ar gerddoriaeth glasurol. Dyma un o gyfnodau mwyaf cynhyrchiol ei fywyd, a chyhoeddodd cyfres o lyfrau. Yn 1967 dechreuodd ar golofn wythnosol yng nghylchgrawn *Open City* dan y teitl *Notes of a Dirty Old Man*. Roedd dau Charles Bukowski yn bodoli - cyn pump, ac ar ôl pump o'r gloch. Dywed Harold Norse *'Cyn pump roedd yn oen, yn berson llawn euogrwydd a chywilydd. Ar ôl pump, roedd yn Bukowski gwahanol, yn barod i ddinistrio eraill'*.

Newidiodd ei fywyd yn gyfangwbl yn 1966. Un noson roedd cnoc ar y drws, a phan atebodd Bukowski'r drws daeth wyneb yn wyneb â John Martin. Roedd Martin am fod yn gyhoeddwr; roedd am gyhoeddi gwaith Bukowski, ac roedd am weld y ddau yn dod yn filiynwyr. Agorwyd gwasg *Black Sparrow* a dechreuodd Bukowski waith ar gyfres o nofelau. Gadawodd ei waith gyda'r Swyddfa Bost ar ddydd Calan, 1970. Roedd newydd orffen gweithio ar ei nofel *Post Office*. Aeth ymlaen i ysgrifennu nofelau eraill fel *Factotum* a *Women*.



Tyfodd ei enwogrwydd yn gyflym, a dechreuodd ddarllen ei waith yn gyhoeddus. Bukowski oedd *'y perfformiwr o uffern'*. Cyn, yn ystod, ac ar ôl darllen ei waith roedd yn yfed a meddwi, cwrso merched, a bod yn boen mawr i bawb oedd yn trefnu'r digwyddiadau. Cafodd enw da - neu ddrwg - ac mae'n cael ei ddisgrifio fel y *'mad dog from hell'*. Cafodd wahoddiad unwaith i fod ar raglen deledu ym Mharis: un o'r gwestai arall oedd menyw oedd yn ysgrifennu straeon am anifeiliaid. Gofynnodd Bukowski iddi ddangos mwy o'i choesau, fel bod modd iddo ddweud os oedd hi'n awdures dda neu beidio!

Treuliodd flynddoedd olaf ei fywyd yn betio ar y rasus ceffylau. Bu farw o pneumonia ar Fawrth 9, 1994 yn 73 oed, tra'n derbyn triniaeth am leukemia. Cafodd ei gladdu uwchlaw San Pedro yn Green Hills Memorial Park. O dan ei enw ar ei garreg fedd mae athroniaeth ei fywyd wedi cael ei gerfio - DON'T TRY.





# Y Gohebydd ac Etholiad Cyffredinol 1868 (gwir arwyr Cymru - rhan 1)

Mae gan ganlyniadau rhai Etholiadau Cyffredinol arwyddocad mawr mewn hanes. *Landslide* Llafur yn 1945 wnaeth arwain at greu y Waldwriaeth Les, er enghraifft. Etholiad felly oedd Etholiad Cyffredinol 1868, yn arbennig i Gymru. Yn ôl David Lloyd George gwnaeth yr etholiad *`ddeffro ysbryd y mynyddoedd ... Chwalwyd grym gwleidyddol landlordiaeth yng Nghymru`*.

Mae gan ganlyniadau rhai Etholiadau Cyffredinol arwyddocad mawr mewn hanes. *Landslide* Llafur yn 1945 wnaeth arwain at greu y Waldwriaeth Les, er enghraifft. Etholiad felly oedd Etholiad Cyffredinol 1868, yn arbennig i Gymru. Yn ôl David Lloyd George gwnaeth yr etholiad *`ddeffro ysbryd y mynyddoedd ... Chwalwyd grym gwleidyddol landlordiaeth yng Nghymru`*.


Roedd gan grefydd ddylanwad mawr ar wleidyddiaeth Cymru yn ystod y ganrif ddiwethaf; yr Anghydffurfwyr yn ochri gyda`r werin ac yn brwydro dros eu hawliau, ac yn cefnogi`r Blaid Ryddfrydol; a`r Eglwys yn cefnogi landlordiaeth a`r Blaid Geidwadol. Yn 1859 cafwyd *`deffroad crefyddol`* yng Nghymru, ac yn Etholiad Cyffredinol y flwyddyn honno bu bron i`r landlord Watkin Williams Wynne, o Wynnstay golli ei sedd. Arweiniodd hyn at ddial ar ei denantiaid: taflwyd 5 tenant oedd wedi pleidleisio yn ei erbyn allan o'u cartrefi, a chodwyd rhent 11 arall oedd wedi ymatal rhag pleidleisio.

Yng Ngheredigion cafwyd camau tebyg. Dywedodd un perchennog tir wrth ei thenantiaid am ymuno gyda`r Eglwys neu adael eu cartrefi. Gyda`r nifer o bobl oedd yn cael pleidleisio yn codi o 1 miliwn i 2 miliwn yn dilyn Deddf Seneddol Disraeli yn 1867, roedd Cymru yn wynebu *showdown* y flwyddyn ganlynol adeg yr Etholiad Cyffredinol

Yn 1868 sgubwyd y Ceidwadwyr o Gymru: aeth 23 o seddi i`r Blaid Ryddfrydol, a 10 yn unig i`r Blaid Geidwadol. Dau o`r Aelodau Seneddol newydd pwysicaf gyda`r Blaid Ryddfrydol oedd yr heddychwr radical Henry Richard, ac Osborne Morgan. Arweiniodd hyn at *droi allan* - sef gorfodi pobl i adael eu cartrefi (ar rhent) oherwydd eu bod yn gwrthwynebu syniadau gwleidyddol y landlord.

*`Gallwn fod yn falch o fuddugoliaethau yr etholiad eleni am lawer o resymau. Gallwn fod yn falch... y gall y Cymro wneud rhywbeth heblaw canu ar y pedwar mesur ar hugain - y gall ef, os bydd angen, sefyll tân, a dal ei dir er gwaethaf holl sgriws y byd.*

Ar daith yn Aberaeron yn 1869 roedd y Gohebydd pan ddaeth i wybod am deulu oedd wedi cael eu troi allan. Aeth i ymweld â theulu Mathew Pugh mewn bwthyn yn Neuaddlwyd. Mae`n eu disgrifio fel arwyr; pobl oedd wedi sefyll dros eu hawliau crefyddol a gwleidyddol, ac wedi dioddef oherwydd hynny. Dywed:



*`Nid digon eu troi dros y drws i`r ffordd fawr, ond rhaid eu herlid, a`u `tosio` o bont i bentan. O! hen Gymru annwyl a goleuedig! yr ydym yn gresynu drosot pan feddyliwn nad oes yn dy foneddigion,* so called, *ar ôl ymladd a chael eu trechu yn anrhydeddus, gymaint â hynny o foneddigrwydd, o* sense of honour... *i ddyfod ymlaen a derbyn yr ymdrechfa, a chyfaddef gydag wyneb agored, "fe wnaethoch chi ein curo y tro hwn". Bellach,* let by-gones be by-gones... *iechyd da i chi* lads, a better luck for us next time...`

Tra`n ymweld â Pugh, daeth i ddeall bod teulu arall o arwyr yn byw ar y fferm fach, a`u bod yn byw yn y beudy - gydag wyth o blant. Mae`n disgrifio`r olwg dlawd iawn sydd arnyn nhw, gyda`r teulu yn eistedd o gwmpas tân bach.

*`Ond dyma nhw! yn awr wedi gorfod troi allan, heb un cartref ar wyneb y greadigaeth fawr i droi iddo; wedi gorfod llechu, a da ei gael, ar y llawr pridd oer, yn nhalcen beudy y wraig weddw. Ac yma, yn nhalcen y beudy oer penagored yma, y ganwyd plentyn, sydd yn awr yn fis oed ac yn sugno ar fron y wraig o flaen y dyrnaid tân yma! Yr wyf yn gadael y darlun yn y fan hyn* to tell its own tale!`

Henry Richard, Apostol Heddwch





LANDLORD



Roedd John Griffith, neu *Gohebydd*, oedd yn gweithio i bapur newydd **Baner ac Amserau Cymru** yn enwog am bledio achos y tlawd. Creodd Etholiad 1868 gyfnod newydd, pwysig, yn hanes Cymru. Sylweddolodd y Cymry ei bod yn bosib cael gwared ar ddylanwad landlordiaid, Ceidwadwyr a`r Eglwys, a bod modd gwneud hynny drwy ddefnyddio eu pleidlais. Dywed Griffith mewn un erthygl yn y Faner:

Gwir arwyr hanes Cymru yw pobl fel Mathew Pugh a`i deulu. Pobl sydd wedi sefyll dros yr hyn maen nhw`n credu. Yn rhannol oherwydd eu hymdrechion cafwyd Deddf Seneddol yn 1872 oedd yn rhoi pleidlais gudd i`r bobl, y **tugel**, sy`n rhan annatod o ddemocratiaeth. Dywed KO Morgan:

*`Mae Cymru, fel yr ydym yn gyfarwydd â hi heddiw, yn greadigaeth technoleg torri glo, y Beibl, a`r Ballot. Felly y bu ers gwario`r oes ddemocrataidd fodern, ac etholiad mawr, y `lecsiwn fawr` yn 1868`.*

Cafwyd cyhoeddiad syfrdanol heddiw wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg fydd yn newid diwylliant Cymru wrth i ni wynebu`r mileniwm newydd. Mewn symudiad dramatig mae`r Arglwydd Thomas o Lysh (gynt - Dafydd Ale) wedi rhoi`r sac i Elan Closs (***but no cigar***) Stephens a Hazel *Wellfed* Davies o`i dim, a rhoi yn eu lle ddau gymeriad ffuglennol - Detective Inspector Jack Regan a Detective Sergeant George Carter, dau aelod o`r Sweeney.

# NEW FIRM

Dywedodd yr Arglwydd DT`s: *`Fi yw guvnor Cymru, a beth wy`n dweud ar y Manor sy`n mynd. Fydd Regan a Carter yn dechrau ar eu gwaith yn syth, ac fe fyddant yn gyrru o gwmpas Cymru yn eu Rovers yn gweiddi ar bobl, mewn ymgais i hybu`r iaith Gymraeg.`*




Dywedodd DS Carter: *`fydda i a`r Guv yn creu syniadau newydd i geisio adfywio diwylliant Cymru`*, tra dywedodd Regan *`Shut it George... y cam cyntaf fydd creu Rhyming Slang Cymraeg - mae`r Cymry yn dda am odli. Mae`r WDA a BDCW wedi addo gwastraffu gormod o arian ar y prosiect hwn, unwaith eto. Ry`n ni`n gobeithio datblygu`r slang yn debyg i rhyming slang Llundain ee Sweeney Todd - Flying Squad.`*

Yn amlwg bydd y weithred o tapio ffôn yn cael ei alw`n **bryn** - Bryn Fôn. Rhai o`r geiriau eraill fydd:

Rhys (Mwyn) - Trwyn.

Dewi (Llwyd) - Bwyd.

Seren (Tan Gwmwl) - Trwbwl


Croesawyd y cynllun gan fudiadau ieithyddol / gwleidyddol fel Cefn, a mudiadau adloniant fel Cymdeithas yr Iaith. Ym marn Cefn hwn yw`r syniad cyntaf sydd wedi pasio rhwng dwy glust yr Arglwydd Ale ers iddo ddod yn Gadeirydd y Welsh Language Board.

# Mae`r Super Furry Animals yn medru darllen - "it`s official"!

Mae Seren Tan Gwmwl yn falch o fedru cyhoeddi bod o leiaf un aelod o`r grwp Cymraeg Super Furry Animals yn medru darllen. Mewn erthygl yn y cylchgrawn BUZZ sonia`r prif ganwr Geoff Reece am gân ar yr album *newydd Radiator / Gwresogydd* gafodd ei hysbrydoli gan fwrdd golygyddol SEREN TAN GWMWL. Wedi darllen y stori am Valentine Strasser yn rhifyn 1996 o`r ffansin bendigedig, ysblennydd, gwych (sy`n dal ar gael - 01267 233588), aeth ati i geisio ysgrifennu y gân *Placid Casual*, sy`n son am y gwron Strasser.

**Er gwybodaeth i Gruff Rhys**: mae Strasser, yn 1997, wedi bod yn astudio yng ngholeg Coventry, wedi i gyn-gyd-chwyldroadwr bwyntio dryll at ei ben a dweud wrtho am adael y wlad gyda`r geiriau *`I don`t think you should stand for election. Britain is very beautiful at this time of year`* Roedd am fynd ymlaen i Brifysgol Warwick yn yr Hydref, ond mae protestiadau wedi bod yn erbyn ei bresenoldeb yno.

Er i Gruff brofi heb os nac onibai ei fod yn medru darllen, nid ydym yn siwr eto os yw hefyd yn medru ysgrifennu. Byddwn yn penderfynu wedi derbyn copiau am ddim o`r album newydd (30 copi), i`w hanfon i 7 Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin !!




Gruff, whilst stating that he doesn`t make a particular point of writing about obscure heroes has featured a new character on the track `The Placid Casual`: Valentine Strasser who led a `Disco Communist revolution` in Sierra Leone in `92.

"He erected speakers in every village and he played `Ain`t No Stopping us Now` by McFadden Whitehead; that was the official song of the revolution. A great disco dancer and a great leader – well he wasn`t a great leader– his Civilian Government was overthrown by the military.

"But his mate fled to Britain after the revolution cos he fell out with Valentine. He fled to Aberystwyth with a law degree and tried to plan a coup in Aberystwyth and he went to Birmingham and enlisted some Chinese triads to help him and they flew to Freedom, the capital of Sierra Leone which isn`t very free and they went through customs and they were busted straight away, so the coup was shite!"

So where did Gruff dig that story up?

The soft-spoken singer, a self confessed 'magpie,' reveals the source as a Welsh Language Socialist Fanzine "who hate our guts, because we've sold out to `the Man`. They had a two page article about the chartist revolution in Newport and they had a picture of us saying `Super Furry Animals are chartists`, because we've been in the pop charts!"